**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 25 Tachwedd 2021 am 3.00 pm

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd G Caple (Cadeirydd)

Y Cynghorydd S Rees
Y Cynghorydd J Bonetto
Y Cynghorydd P Jarman
Y Cynghorydd D Grehan
Y Cynghorydd G Hughes
Y Cynghorydd J Williams
Y Cynghorydd D Williams
Y Cynghorydd W Lewis
Y Cynghorydd S Powderhill

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Jones, Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr A Rees, Uwch Beiriannydd

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cynghorydd J Edwards
Y Cynghorydd M Weaver

### 116 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

### 117 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

### 118 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

**119 Cofnodion 07.10.21**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 07.10.21 yn rhai cywir.

**120 NEWID I DREFN YR AGENDA**

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei ystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

**121 CAIS RHIF: 21/1108/10**

**Estyniad deulawr arfaethedig i gefn yr eiddo. 45 Clos Brenin, Brynsadler, Pont-y-clun, CF72 9GA**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

Mr S Coombes (Ymgeisydd)
Ms J Rhodes (Gwrthwynebydd)
Mr B Lewis (Gwrthwynebydd)

Nododd y Pwyllgor nad oedd Mr C Richards (Asiant), a oedd wedi gofyn am gael annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cais, yn bresennol i wneud hynny.

Arferodd yr Ymgeisydd, Mr S Coombes, yr hawl i ymateb i sylwadau'r gwrthwynebwyr.

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**122 CAIS RHIF: 21/0591/10**

**Bloc Stablau a Manège (Tystysgrif Perchenogaeth 'B' diwygiedig wedi dod i law ar 7 Gorffennaf 2021. Cynlluniau diwygiedig â newidiadau i'r safle - ailosod y bloc stablau a lleihau ei faint wedi dod i law ar 31 Awst 2021) Tir i'r de o 25-41 Stryd Kennard, Tonpentre.**

Yn unol â'r gweithdrefnau sydd wedi'u mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mrs S Bromwell (Ar ran yr Ymgeisydd). Cafodd hi bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau.

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Weaver, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei chefnogaeth o'r datblygiad arfaethedig.

Yn unol â Chofnod Rhif 91 o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2021, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yn amlinellu canlyniad yr ymweliad safle a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd mewn perthynas â'r cais a argymhellwyd i'w

gymeradwyo gan y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar yr Amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

**123 CAIS RHIF: 21/1208/10**

**Adeiladu annedd newydd gyda garej ynghlwm. Tir ger Cartref Melys, Heol Llechau, Aberllechau, Porth, CF39 0PP**

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Edwards, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei chefnogaeth o'r datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

(**Nodwch:** Ar y pwynt yma, gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. Williams y cyfarfod, ac ni ddychwelodd.)

**124 CAIS RHIF: 20/1380**

**Podiau glampio ar gyfer llety gwyliau (derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar 26/01/2021) (derbyniwyd Cynllun Trefniant Draenio Aflan 30/07/21) Fferm Pencaedrain, Teras Dinas i Goed Wernhir, Rhigos, Aberdâr, SA11 5NF**

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**125 CAIS RHIF: 21/1122/10**

**Cadw deciau a ffens sy wedi'u gosod yn yr ardd gefn. 86 Y Cwmwd, Cwmdâr, Aberdâr, CF44 8AQ**

Amlinellodd y Pennaeth Cynllunio gynnwys llythyr 'hwyr' gan Ms V Davies (Ymgeisydd).

Aeth ymlaen i gyflwyno'r cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**126 CAIS RHIF: 21/1088/10**

**Llwyfan wedi'i godi yng nghefn cartref preswyl 3 llawr i'w ddefnyddio fel dihangfa dân. (wedi'i ailgyflwyno 21/0442/10 - Derbyniwyd y cynllun yn rhoi manylion am ffens â sgrin arfaethedig ar 13/09/2021). 25 Stryd Thomas, Tonypandy, CF40 2AH**

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio'r cais, a gafodd ei gyflwyno'n wreiddiol i'r Pwyllgor ar 21 Hydref 2021, pan gymeradwyodd yr Aelodau'r cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu (Cofnod 101).

Trafododd yr Aelodau yr adroddiad pellach, a oedd yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl o ran cymeradwyo cais yn groes i argymhelliad swyddogion, ac yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais, yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu. Roedd hyn am eu bod o'r farn na fyddai'r dyluniad yn cael effaith ormodol ac andwyol ar y cymdogion.

**127 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 25/10/2021 a 12/11/2021.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.00 pm**

**Y Cynghorydd S Rees**
**Cadeirydd.**